# Pori yn Rhagori!

**Beth yw PONT?**



Pori, Natur a Threftadaeth - Grazing, Nature and Heritage - yw sefydliad pori dielw Cymru.

Gweledigaeth PONT yw hybu arferion pori sy'n amgylcheddol gynaliadwy ac yn sicrhau manteision niferus i fywyd gwyllt a phobl nawr ac yn y dyfodol.

**Manteision pori:**

- Mae rheolaeth dda ar bori'n hanfodol er mwyn cynnal llawer o'n cynefinoedd bywyd gwyllt sydd â chyfoeth o rywogaethau. Gall reoli rhywogaethau ymosodol ac ymledol, cynnal cynefinoedd agored drwy atal llwyni rhag ymledu, a chreu bylchau er mwyn i rywogaethau newydd allu egino.
- Gall yr economi wledig elwa o well incwm ar ffermydd drwy well rheolaeth ar bori tir ymylol a marchnata cynnyrch lleol a chyfeillgar i fywyd gwyllt.
- Ar gyrion trefol, mae pori o fudd i gymunedau lleol drwy leihau'r risg o danau a gwella mynediad i ofod gwyrdd.
- Yn yr amgylchedd ehangach gall pori gefnogi rheolaeth ar y risg o lifogydd a bod o fudd i beillwyr.

**Sut mae PONT yn gweithio:** Bydd tîm PONT, sy'n cael ei gyllido i ddechrau gan Lywodraeth Cymru, yn gweithio gyda sefydliadau anllywodraethol, cymunedau, a rheolwyr a pherchnogion tir er mwyn datblygu a chefnogi Cynlluniau Pori Lleol a Rhwydweithiau Pori Lleol ledled Cymru.

Mae PONT yn gweithio gyda chonffederasiwn o gynghorwyr, o feysydd fel cadwraeth natur, addysg a chymunedau ffermio, sy'n gallu helpu gyda gwybodaeth am amrywiaeth eang o bynciau.

Mae gwaith PONT yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf wedi arwain at reolaeth well ar bori a manteision amgylcheddol ehangach ledled Cymru, gan gynnwys mentrau ar Ynys Môn ac yn Sir Gaerfyrddin a Phen-y-bont ar Ogwr.

**Beth mae PONT yn ei gynnig:**

**Cyngor a chefnogaeth ymarferol** gyda sefydlu mentrau pori a datrysiadau ar safleoedd. Mae'n cynnwys help gyda cheisiadau cyllido a datblygu cynlluniau marchnata lleol.

**Cefnogaeth i** Reoli Adnoddau Naturiol, Cynllun Adfer Natur ac amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru.

**Hyfforddiant** mewn sgiliau sy'n amrywio o archwilio stoc i farchnata cynnyrch lleol, bugeilio manwl a chyfathrebu; gan helpu eraill i ddatblygu busnesau sy'n hyfyw yn economaidd a sicrhau manteision i fyd natur ar y tir.

**Cofiwch gysylltu:**

- Os hoffech gael help gyda sefydlu cynllun pori lleol
- Os hoffech gael ymweliad safle i drafod pori
- Os oes gennych syniad cyllido yr hoffech ei ddatblygu
- Os hoffech gael cyngor neu gefnogaeth gyda phrosiect pori
- Os oes gennych syniadau ar gyfer hyfforddiant yr ydych yn credu y gallai PONT ei gyflwyno
- Os hoffech i ni gyfrannu at ddigwyddiad neu hyfforddiant

Cysylltwch â PONT info@pontcymru.org - Twitter/facebook addresses - a www.pontcymru.org